

<u>Techyd a Lles</u> 	Wrth archwilio adeiladau a lleoedd yn ein cymuned, bydd y plant yn trafod sut mae lleoedd fel ysgolion, canolfannau cymunedol, addoldai a pharciau yn helpu pobl i ffurfio cyfeillgarwch a chydberthnasau cadarnhaol. Byddant yn dysgu sut i fynegi eu teimladau a'u hanghenion, datrys anghytundebau'n barchus, a deall pam mae hawliau plant a hawliau dynol yn bwysig mewn cymuned iach a chynhwysol. Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau llythrennedd drwy drafodaethau, chwarae rôl a gwaith ysgrifennu, eu sgiliau rhifedd drwy gynnal arolygon syml a chyflwyno canlyniadau, a'u sgiliau digidol drwy greu poster, cyflwyniadau neu fideos byrion i hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol a lles.
<u>Dyniaethau.</u> 	Bydd y plant yn defnyddio adeiladau a drysau fel ffenestr i'r gorffennol a'r presennol, gan ymchwilio i leoedd arbennig yn eu cymuned ac ar draws y byd. Byddant yn cymharu mapiau, archwilio sut mae tirweddau a lleoedd yn newid, ac yn trafod beth sy'n gwneud lle yn bwysig i bobl a chymunedau gwahanol. Byddant hefyd yn dysgu am draddodiadau Nadolig, Diwali a gwerthoedd pwysig ym mywyd Mwslimiaid drwy astudio Sawm a Hajj. Trwy'r gweithgareddau hyn, bydd y plant yn datblygu eu sgiliau llythrennedd drwy ymchwilio a thrafod, eu sgiliau rhifedd drwy ddehongli gwybodaeth a chymariaethau, a'u sgiliau digidol drwy ddefnyddio mapiau, ffotograffau a chyflwyniadau digidol i rannu eu dysgu.
<u>Gwyddoniaeth.</u> 	Bydd y plant yn ymchwilio i sut mae grymoedd yn effeithio ar bobl a gwrthrychau drwy gynnal ymchwiliadau ymarferol a phrofi eu syniadau eu hunain. Gan gysylltu â'r thema adeiladau a drysau, byddant yn archwilio sut mae drysau'n agor ac yn cau, sut mae gwrthoedd a thynnu yn creu symudiad, a sut mae peirianwyr yn dylunio adeiladau a strwythurau sy'n ddiogel ac yn addas i'w diben. Bydd y dysgwyr yn defnyddio eu creadigrwydd i ddylunio, adeiladu a gwerthuso modelau a datrysiadau syml, gan ddatblygu eu sgiliau llythrennedd drwy drafod a chofnodi eu canfyddiadau, eu sgiliau rhifedd drwy fesur, cymharu a chyflwyno canlyniadau ymchwiliadau, a'u sgiliau digidol drwy ddefnyddio technoleg i ymchwilio, cofnodi data a chyflwyno eu gwaith mewn ffyrdd creadigol.
<u>Celfyddydau Mynegiannol</u> 	Bydd y plant yn defnyddio adeiladau a drysau fel ysbrydoliaeth ar gyfer eu gwaith creadigol, gan archwilio sut mae artistiaid a dylunwyr yn mynegi syniadau, teimladau a straeon drwy wahanol ffurfiau celf. Byddant yn arsylwi adeiladau lleol a rhai o Gymru a'r byd ehangach, gan greu eu lluniau, paentiadau, modelau a dyluniadau eu hunain mewn ymateb. Bydd y dysgwyr yn arbrofi gyda gwahanol ddeunyddiau a thechnegau, yn dylunio a chreu adeiladau neu ddrysau dychmygol, ac yn rhannu eu syniadau gyda'i gilydd er mwyn datblygu a gwella eu gwaith. Trwy'r gweithgareddau hyn, byddant yn datblygu eu sgiliau llythrennedd drwy drafod a gwerthuso



gwaith creadigol, eu **sgiliau rhifedd** drwy ddefnyddio siapiau, patrymau a mesuriadau yn eu dyluniadau, a'u **sgiliau digidol** drwy ddefnyddio offer digidol i greu a chyflwyno eu gwaith.

Cyd-destun Lleol: Cartrefi unigol y plant. Cymharu bywyd gweision a pherchnogion Tŷ Newton.

